

# Ymgynghoriad ynglŷn â newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu dros hawliau i'r Gymraeg ers dros 50 mlynedd. Credwn fod gan bob unigolyn sy'n dewis gwneud Cymru yn gartref iddynt yr hawl i glywed, i weld, i siarad, i ddysgu, ac i fwynhau ein hiaith genedlaethol unigryw.

1.2. Croesawn y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar newid enw ein Cynulliad Cenedlaethol. Rhy hyn gyfle i ni ystyried enw ein corff democrataidd cenedlaethol yn ofalus.

## 2. Safbwynt y Gymdeithas

### **2.1. Credwn mai'r enw sy'n disgrifio swyddogaeth a chyfrifoldebau'r sefydliad orau yw'r enw uniaith Gymraeg 'Senedd.'**

2.2. O ran teitl yr aelodau, credwn mai 'Seneddwyr' / 'Seneddwr' yw'r teitl mwyaf addas. Byddai'r aelodau felly yn arddel y teitl ar y ffurf ganlynol: "Sen. Elin Jones".

2.3. Mae lle gan y sefydliad i anelu at fod yn esiampl ac yn ysbrydoliaeth i'r genedl, o ran ei bolisiâu a'i ddeddfwriaeth flaengar, ond hefyd ei ddefnydd o'r iaith genedlaethol unigryw. Mae'r gair 'Senedd' yn un sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ar lawr gwlad, a dylid manteisio ar y cyfle i fod yn unigryw drwy gael enw swyddogol uniaith Gymraeg.

2.4. Nodwn fod y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft yn nodi nifer o enwau uniaith Gymraeg a ddefnyddir yn barod nad ydynt yn creu trafferth na phroblem i neb, sef: y Llywydd, y Senedd, Neuadd, Cwrt, Oriol, Siambr, Tŷ Hywel a Siambr Hywel.

2.5. Mae ein llywodraeth ddatganoledig eisoes yn cefnogi llu o sefydliadau sydd ag enwau uniaith Gymraeg: 'Chwarae Teg', 'yr Urdd', 'Merched y Wawr' a'r 'Mudiad Meithrin' i enwi rhai yn unig. Mae geiriau ein hanthem genedlaethol yn uniaith Gymraeg yn ogystal.

2.6. Gwyddom fod rhai wedi dadlau mai enw'r adeilad yw'r Senedd ac y dylai fod enw arall ar y ddeddfwrfa. Un ateb syml i hynny fyddai ail-enwi'r adeilad yn 'Senedd-dŷ' pe dymunir.

2.7. Dadleuir bod angen enw dwyieithog er mwyn cynnwys siaradwyr Saesneg. Fodd bynnag, mae'r enw 'Senedd' yn ffordd i dynnu pobl o bob cefndir ac iaith ynghyd, gan gofio nad y Gymraeg a'r Saesneg yw'r unig ieithoedd y siaredir yng Nghymru. Credwn fod gan ein corff democrataidd cenedlaethol gyfle euraid i fabwysiadu'r arfer gorau o ran hybu a hyrwyddo'r Gymraeg drwy ddewis enw uniaith Gymraeg.

### **Grŵp Hawl, Cymdeithas yr Iaith**

**Chwefror 2017**